# Hysbysiad Preifatrwydd Dan GDPR

## Manylion adnabod a chyswllt y Rheolwr Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolwr Data ac mae'n ymroi i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef trwy dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

## Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu amdanoch?

Rydym yn casglu gwybodaeth sy'n ein helpu ni i benderfynu a allwch ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaeth y mae arnom eu hangen, ac y gellir eu defnyddio i reoli unrhyw gontract y gallem ei ddyfarnu i chi. Dyma'r wybodaeth a gasglwn:

Eich enw
Cyfeiriad Busnes
Cyfeiriad gwefan
Rhif y cwmni
Rhif DUNS
Rhif cofrestru TAW
Rhif Ffôn Busnes
Rhif Symudol
Cyfeiriad E-bost
Hyfforddiant, Cymwysterau ac achrediadau
Profiad Gwaith
Addysg ac aelodaeth o gyrff proffesiynol
Enw(au) eich is-gontractwr (os yn berthnasol)
Enw(au) unrhyw aelodau Consortiwm
Enw(au) eich gweithiwr/gweithwyr sydd ynghlwm â chyflawni'r contract
Curriculum Vitae eich staff allweddol sy'n cymryd rhan yng nghyflawniad y contract
Enw(au) eich gweithiwr/gweithwyr CNC y mae gennych berthynas gydag ef/nhw
Enw(au) eich cwsmer(iaid) blaenorol o'r 5 mlynedd diwethaf

## Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a rowch i ni mewn nifer o ffyrdd:

- I werthuso unrhyw ddyfynbris neu dendr a gyflwynwch
- Cael geirdaon gan eich cwsmeriaid eraill
- Gwirio am unrhyw wrthdaro buddiannau
- Diogelu arian y cyhoedd
- Ein galluogi i reoli unrhyw gontract y gallem ei ddyfarnu i chi
- Ein helpu ni i ddadansoddi pwy yw’n cyflenwyr
- At ddibenion ymchwil i’r farchnad
- Eich gwahodd i ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr
- Eich gwahodd i dendro mewn Gweithdrefn Gyfyngedig
- Eich cynghori chi ynghylch cyfleoedd i dendro/contract y gallai fod gennych ddiddordeb ynddynt
- I roi gwybod am gontractau i Lywodraeth Cymru ac/neu Gomisiwn yr UE
- At ddibenion archwilio

## Beth yw’n sail gyfreithiol i brosesu’ch data personol?

Rydym yn casglu’ch gwybodaeth oherwydd bod angen i ni wneud hynny er mwyn i ni gael contract gyda chi.

“Mae prosesu’n angenrheidiol ar gyfer perfformio ***contract*** gyda thestun y data.”

## Pwy sy’n derbyn eich gwybodaeth?

Fel rhan o’r broses gaffael, byddwn yn rhannu’ch gwybodaeth gydag:

- Aelodau’r Tîm Caffael
- Y Rheolwr Contractau
- Y Panel Gwerthuso Tendrau
- Ein Hadran Gyllid
- Rhanddeiliaid mewnol allweddol gan gynnwys ein Hadran Gyfreithiol, Tîm Gweithredol a’r Bwrdd
- Asiantaethau cyfeirio credyd
- Defnyddwyr Contract
- Tendrwyr eraill
- Sefydliadau sector cyhoeddus eraill
- Cyllid a Thollau EM
- Tŷ’r Cwmnïau
- Llywodraeth Cymru, ac/neu Gomisiwn yr UE
- Gwefan GwerthwchiGymru, trwy gyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contractau
- Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd
- Archwilwyr

Mae’n rhaid i CNC lynu wrth Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR).

Golyga hyn fod rhaid i ni rannu rhywfaint o wybodaeth os gofynnir i ni wneud hynny dan y Rheoliadau hyn. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth sydd gennym ac y credwn ei fod yn fasnachol sensitif. Os gofynnir i ni ddarparu gwybodaeth a allai niweidio'ch buddiannau masnachol, byddwn yn gofyn i chi yn y lle cyntaf.

## Unrhyw drosglwyddiadau i wledydd trydydd byd a'r dulliau diogelu sydd ar waith

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r ffaith ein bod ni wedi dyfarnu contract i chi ar wefan GwerthwchiGymru, ac weithiau yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus, gallai gael ei dosbarthu ar raddfa eang.

Byddwn ond yn cyhoeddi'ch enw masnachu a byrdwn y contract.

## Am ba hyd fydd eich gwybodaeth yn cael ei dal?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei dal yn unol â pholisi Cadw Cofnodion CNC, sy'n unol ag amserlenni cadw'r Archifau Cenedlaethol. Mae angen y cyfnod cadw hwn at ddibenion archwilio ac yn achos apeliadau a chyfreitha.

Cyfnod safonol cadw tendrau/contractau yw:

Ar gyfer contractau o £5,000 neu'n llai – 2 flynedd ar ôl diwedd y contract

Ar gyfer tendrau llwyddiannus – 6 blynedd o ddiwedd y contract

Ar gyfer tendrau aflwyddiannus – 1 flwyddyn ar ôl dyddiad y papur olaf

Ar gyfer tendrau a ariennir gan yr UE – 14 blynedd o gwblhau'r prosiect (a dinistr a awdurdodwyd gan WEFO)

## Beth yw'r hawliau unigol?

Mae gennych hawl i droi at eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu'ch gwybodaeth bersonol, cywiro, dileu*, cyfyngu a throsgludo'ch gwybodaeth bersonol. Ewch i'n tudalennau gwe Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.

*Sylwch na ellir dileu'ch gwybodaeth o fewn y cyfnod cadw a datgenir uchod.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau ar bapur i Swyddog Diogelu Data CNC:-

**E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**Swyddog Diogelu Data**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Maes y Ffynnon**
**Penrhos Road**
**Bangor**

**Gwynedd**
**LL57 2DW**

## Diogelwch eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw'ch data'n gyfrinachol gyda'n system e-dendro yn ystod y broses gaffael, gyda mynediad i'r system wedi'i gyfyngu i staff awdurdodedig yn unig. Mae tendrau wedi'u cynnal drwy'r post yn brin, ond byddai data yn yr achosion hyn yn cael ei gadw mewn lleoliad diogel yn un o swyddfeydd CNC, gyda mynediad i'r data wedi'i gyfyngu i'r staff hynny sydd â hawl mynd ato.

Os dyfarnwn gontract i chi, bydd eich enw a'ch manylion cyswllt yn cael eu rhannu fel rhan o weithdrefnau rheoli contract a thrwy gyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract ar wefan GwerthwchiGymru, neu yng Nghyfnodolyn Swyddogol Undeb y Myfyrwyr.

## Sut i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich data personol ei brosesu, gallech gysylltu â Swyddog Diogelu Data CNC yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:-

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,**
**Wycliffe House,**
**Water Lane,**
**Wilmslow,**
**Swydd Gaer,**
**SK9 5AF**

**www.ico.org.uk**